# John Saunders Lewis, 1893–1985
## Ysgolhaig, awdur, dramodydd a bardd

> Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad,
> I'w thraddodi i'm plant
> Ac i blant fy mhlant
> Yn dreftadaeth dragwyddol;
> Ac wele'r moch yn rhuthro arni i'w maeddu.
> Minnau yn awr, galwaf ar fy nghyfeillion,
> Cyffredin ac ysgolhaig,
> Deuwch ataf i'r adwy,
> Sefwch gyda mi yn y bwlch,
> Fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl y glendid a fu.
>
> *O* Buchedd Garmon *gan Saunders Lewis*

Ganed Saunders Lewis yn Bolton-cum-Seacombe ar lannau'r Mersi ar 15 Hydref 1893, yn un o dri o feibion Lodwig a Mary Lewis. Yr oedd ei dad wedi bod yn weinidog ar eglwys Bresbyteraidd Liscard Road, Seacombe er 1891, ac yno y bu hyd 1916 pryd y symudodd i Abertawe. Roedd ei fam yn ferch i'r enwog Barch. Ddr Owen Thomas, Lerpwl, ac yn wyres i'r Parch. William Roberts, Amlwch, dau o gewri Presbyteriaeth. Ergyd drom i'r teulu oedd marwolaeth Mary ym 1900 a magwyd y bechgyn yn dyner gan ei chwaer, Ellen Elizabeth Thomas. Aeth Saunders Lewis i ysgol breifat Ysgol Uwchradd i Fechgyn, Liscard, ac yna i Brifysgol Lerpwl i astudio Saesneg a Ffrangeg. Pan ddaeth y Rhyfel Mawr (1914–18) ymunodd â'r South Wales Borderers gan wasanaethu yn Ffrainc am bum mlynedd a chael ei anafu'n ddrwg.

Wedi'r rhyfel dychwelodd i'r brifysgol gan raddio gydag anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Saesneg ym 1920. Ar ôl treulio blwyddyn fel llyfrgellydd yn sir Forgannwg fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe ym 1922. Yn y flwyddyn honno hefyd priododd â Margaret Gilcriest, gwraig o dras Wyddelig, ac fe gawsant un ferch, sef Mair. Yn dilyn marwolaeth ei dad ym 1933 fe ymunodd ag Eglwys Rufain gan

gefnu ar ei fagwraeth Ymneilltuol. Ysgrifennodd yr Esgob D.J. Mullins amdano, 'Iddo ef, fel i bob Cristion, Crist Iesu yw'r datguddiad terfynol a roddwyd i ddynion, yr unig enw a roddwyd i ni gael ein hachub drwyddo.'

Ym 1936 carcharwyd Saunders Lewis, y Parch. Lewis Valentine a D.J. Williams am naw mis am losgi'r Ysgol Fomio ym Mhen Llŷn. O ganlyniad fe gollodd ei swydd a threuliodd un mlynedd ar bymtheg yng nghyffiniau Aberystwyth yn cynnal ei deulu trwy newyddiadura, ffermio, a dysgu mewn ysgolion Catholig. Ym 1952 fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Ymddeolodd ym 1957 ond parhaodd i ysgrifennu'n egnïol. Fel darlithydd, llenyddiaeth Gymraeg oedd ei brif faes a chyhoeddodd doreth o erthyglau a llyfrau, megis, *A School of Welsh Augustans* (1924), *Williams Pantycelyn* (1927), a *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1535* (1932). Cyhoeddodd ddwy nofel, sef *Monica* (1930) a *Merch Gwern Hywel* (1964), a thair ar hugain o ddramâu, yn eu plith *Buchedd Garmon* (1937), *Blodeuwedd* (1948) a *Gymerwch Chi Sigarét?* (1956). Bu hefyd yn barddoni, ac ymhlith ei gerddi mwyaf cofiadwy y mae 'Y Dilyw' a 'Mari Fadlen'.

Bu Saunders Lewis yn weithgar yn wleidyddol yng Nghymru, yn ogystal, ac yr oedd ymhlith y rhai a ffurfiodd Blaid Genedlaethol Cymru ym 1925, gan ddal swydd y llywydd o 1926 i 1945. Traddododd ddarlith radio bwysig ym 1962, sef *Tynged yr Iaith*, darlith a ysbrydolodd rai i sefydlu Cymdeithas yr Iaith ac i ddechrau ymgyrchu dros hawliau'r iaith. Bu farw ym 1985 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Gatholig Penarth.